# ACADEMI CYFLEON

## PROFIADAU.
## HYFFORDDIANT.
## CYFLEON.
## CEFNOGAETH.

01286671153 cyfleon@gisda.co.uk

GISDA

WCVA CGGC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WCVA CGGC Active Inclusion Fund
Cronfa Cynhwysiant Gweithredol

# Prosiect sydd yn creu cynllun llwybr clir ar y cyd gyda'r person ifanc i adnabod gwahanol ffyrdd o arfogi'r person ifanc gyda'r sgiliau, hyder a / neu cymwysterau i'w galluogi i symud ymlaen o gefnogaeth i fyw yn annibynol ac i gyflogaeth

Caiff yr holl gyrsiau eu rhedeg gan ein staff sydd â chyfoeth o brofiad o weithio'n agos gyda'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r staff yn ymdrechu i gymell y bobl ifanc a'u arfogi â'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd annibynnol.

## Kaya Hughes
## Arweinydd Tim Cyfleon

## Sophie Knight
## Swyddog Cyfleon

## Bethany Celyn
## Swyddog Ymgynhgori a Chyfthrebu

## Gwion Evans
## Swyddog Gwirfoddoli

GISDA

WcVA CGGC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WcVA CGGC Active Inclusion Fund Cronfa Cynhwysiant Gweithredol

Community Foundation Wales
Wales Coronavirus Resilience Fund
Changing Lives Together
Support charities, community groups & not for profit organisations help the most vulnerable in our communities!

# Gwasanaeth galw mewn #MAES a #BLAENAU

Mynediad tuag at gyfrifiadur a rhyngrwyd
Derbyn cyngor neu gefnogaeth
Ymweld â swyddi diweddaraf
Ymholi am gyfleoedd wirfoddoli
Cwblhau hyfforddiant ar lein, grŵp neu un i un
Cwblhau achrediadau
Cyfeirio at wasanaethau eraill
Amserlen gyda gweithgareddau creadigol ac addysgol

# Gweithdai

## Ymwybyddiaeth o ddigartrefedd

**Dull:** Gweithdy gwers ysgol (50 munud)
Gweithdy cyfnod hirach neu gyfres o weithdai (yn fwy manteisiol)
Sesiwn ar-lein rhyngweithiol

**Cynnwys:** Yn y sesiwn ryngweithiol hon, byddwn yn herio'r normau digartref, yn edrych ar enwogion a fu unwaith yn ddigartref. Tasg gyllidebu – a yw pobl ifanc yn gwybod beth yw gwir gost byw?. Manteision ac anfanteision byw gartref gyda'ch rhieni, ble i fynd i gael help os ydych yn cael eich hun yn ddigartref.

## Creu CV

**Dull:** Sesiwn ar-lein rhyngweithiol
Sesiwn 1:1
Gweithdy grwp

**Cynnwys:** Cefnogaeth i greu eich CV eich hun! Pam mae cael CV yn bwysig, pam mae ymchwil yn bwysig, awgrymiadau ar sut i gael eich CV wedi'i sylwi. Ynghyd â hyn, byddwch yn derbyn cymorth 1:1 wrth adeiladu eich CV gan ddefnyddio ein templed.

# Hyfforddiant ar-lein

Ydych chi eisiau hyfforddiant mewn maes penodol neu eisiau adeiladu eich CV? Rydym yn cynnig amryw o hyfforddiant ar-lein a gallwch gwblhau o adref neu dewch mewn i un o'n canolfannau i gwblhau gyda chefnogaeth gweithiwr!

## Hylendid Bwyd Lefel 1

**Cynnwys:** Cyflwyno egwyddorion sylfaenol diogelwch a hylendid bwyd i unrhyw un sy'n ddechreuwr mewn amgylchedd lle gall bwyd gael ei baratoi neu ei storio.

**Maes:** Unrhyw faes! - Byddech yn synnu faint o rolau sy'n gofyn i chi ymdrin â bwyd mewn unrhyw ffordd; o weithio mewn cegin i gartref gofal, meithrinfa a mwy!

## Hylendid Bwyd Lefel 2

**Cynnwys:** Yn berffaith ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda, neu'n trin bwyd, ac yn awyddus i fodloni gofynion hyfforddiant bwyd y DU. Mae'r cwrs hwn yn orfodol mewn llawer o fannau gwaith lle yr ymdrinnir â bwyd.

**Maes:** Unrhyw faes! - Byddech yn synnu faint o rolau sy'n gofyn ichi ymdrin â bwyd mewn unrhyw ffordd; o weithio mewn cegin i gartref gofal, meithrinfa a mwy!

## Ymwybyddiaeth o Alergedd Bwyd

**Cynnwys:** Wedi'i gynllunio i helpu dysgwyr i nodi'r 14 alergeddau bwyd penodol y mae'n rhaid eu cydnabod, yn ôl y gyfraith, a deall pam mae'n rhaid trin bwydydd sy'n cynnwys alergeddau yn ofalus.
Bwysig iawn os ydych yn chwilio am yrfa yn y diwydiant lletygarwch.

**Maes:** Arlwyo a lletygarwch

## Gofal cwsmer mewn lletygarwch

**Cynnwys:** Rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol sydd eu hangen arnoch i sicrhau eich bod yn darparu gwasanaeth gwych bob tro. Sgiliau hanfodol os ydych chi'n chwilio am swydd fel gweinydd, person bar, barista a mwy!

**Maes:** O weithio mewn tafarn brysur, caffi bach neu fwytai i weithio mewn gwesty – Mae gwasanaeth cwsmeriaid yn sgìl defnyddiol!

## Cymorth cyntaf yn y gweithle

**Cynnwys:** Bydd y cwrs yn addysgu dysgwyr i ddilyn canllawiau'r Cyngor Dadebru (DU) ar gyfer hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a darparu gwybodaeth am sut i weithredu os bydd digwyddiad angen cymorth cyntaf.

**Maes:** Bob maes! Mae cymorth cyntaf yn sgìl hanfodol y gall pawb elwa ohono.

GISDA
WcVA CGGC
Llywodraeth Cymru Welsh Government
WcVA CGGC Active Inclusion Fund Cronfa Cynhwysiant Gweithredol
Community Foundation Wales — Wales Coronavirus Resilience Fund

## Ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y gweithle

**Cynnwys:** Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i addysgu gweithwyr a chyflogwyr pam y mae iechyd a diogelwch yn y gweithle mor bwysig mewn perthynas â Deddf Iechyd a diogelwch yn y gwaith 1974.

**Maes:** Bob maes! Mae'n bwysig fel gweithiwr eich bod yn gwybod beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau wrth ymuno â'r gweithlu!

## Diogelu oedolion Lefel 2

**Cynnwys:** Pam mae'n dod i ddiogelu oedolion a lleihau'r risg o gam-drin ac esgeuluso mae nifer o gyfrifoldebau pwysig mae gan unigolion o fewn eu rôl.
Mae'r hyfforddiant yn mynd i'r afael â'r cyfrifoldebau hyn ac yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ddysgwyr o bynciau diogelu allweddol sy'n eu galluogi i gymhwyso'r wybodaeth i'w gweithle.

**Maes:** Ddefnyddiol os ydych am symud ymlaen i swydd sydd yn ymwneud a gofalu am oedolion – gofalwr cartref, gweithiwr cefnogol, nyrs, tiwtoriaid ac yn y blaen.

## Diogelu plant lefel 2

**Cynnwys:** Bydd y cwrs hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr i allu adnabod arwyddion a symptomau cam-drin a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud os ydynt yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin neu'n datgelu gwybodaeth sensitif iddynt.

**Maes:** Ddefnyddiol os ydych am symud ymlaen i waith gofal blant – gwarchodwyr, gweinyddion meithrin, cynorthwyydd dosbarth, athro, nyrs ac yn y blaen.

## Codi a chario yn y gweithle

**Cynnwys:** Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr er mwyn lleihau'r siawns o gael anaf wrth drin llwythi yn eu gwaith.

**Maes:** Bydd y rhan fwyaf o swyddi yn gofyn i chi ar ryw adeg godi gwrthrych trwm – Dysgwch sut i wneud hynny heb anaf!

GISDA
WcVA CGGC
Llywodraeth Cymru Welsh Government
WcVA CGGC Active Inclusion Fund Cronfa Cynhwysiant Gweithredol
Community Foundation Wales — Wales Coronavirus Resilience Fund

# Achrediadau Agored Cymru

Mae GISDA yn ganolfan gydnabyddedig agored Cymru sy'n ein galluogi i redeg ystod eang o hyfforddiant a chymwysterau mewn ffordd fwy hyblyg ac arloesol. Caiff y cymwysterau eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u parchu'n eang gan y sector addysg, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr. Rydym yn cynnig achrediadau craidd a restrwyd isod ond mae modd hefyd i ni ddarparu achrediad gwahanol wedi ei deilwra i'r grŵp neu unigolyn.

## Cymhwyster: Sgiliau byw'n annibynnol

Nod ein gwasanaethau craidd yw symud pobl ifanc ymlaen o gael eu gwahardd i mewn i gyflogaeth ac mae sgiliau byw'n annibynnol yn hanfodol ar gyfer y trawsnewid hwn.
Gall cyfranogwyr weithio'n agos gyda'u gweithiwr i sefydlu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion penodol. Gall unigolyn cwblhau un achrediad yn unig neu i weithio tuag at ddyfarniad a hyd yn oed ddiploma drwy gyfuno nifer o'r achrediadau isod:

| Uned | Disgrifiad |
|---|---|
| Sgiliau byw'n annibynnol | Uned gyffredinol i asesu eu sgiliau byw'n annibynnol yr unigolyn - y sgiliau maen nhw'n eu perfformio ar hyn o bryd a'r sgiliau sydd angen gweithio arnyn nhw. Gallai'r uned hon fod yn sylfaen a chynllun i ba unedau eraill sydd angen yn ôl eu hanghenion. |
| Cyllidebu | Uned gyllidebu sylfaenol iawn ar gyfrifo costau a chyfansymiau. |
| Rheoli arian | Helpu'r dysgwr i ddeall y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rheoli arian, gan gynnwys budd-daliadau, dulliau talu, biliau'r cartref ac ati. |
| Defnyddio arian | Sut i gyfrifo arian ac unrhyw broblemau a all godi mewn bywyd bob dydd yn ymwneud â hyn. |
| Siopa am fwyd i goginio pryd | Y sgiliau sydd eu hangen i ddewis rysáit benodol a siopa ar gyfer ei gynhwysion. Gall yr uned hon gael ei ddilyn gan uned "coginio pryd syml". |
| Coginio bwyd syml | Dysgwch sut i baratoi a choginio prydau bwyd. Yn cynnwys: dewis cynhwysion, gwahanol dechnegau coginio, paratoi bwyd a'r broses lanhau. |
| Storio bwyd | Sut i gadw bwyd yn ddiogel i gynnal eu bywyd silff ac ymwybyddiaeth o arferion hylendid cysylltiedig megis rhewi a dadrewi. Sut i ddilyn gwybodaeth a geir ar becynnau bwyd. |
| Hylendid Cegin | Deall yr angen am hylendid personol yn y gegin a sut i gynnal man cegin hylan. |
| Paratoi diodydd a byrbrydau | Dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i baratoi diodydd oer a byrbrydau gan gynnwys arferion hylendid a thechnegau paratoi. |
| Ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau | Sut i fod yn ddinasyddion gweithgar ac annog ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau. Enghreifftiau o sut y gellir ailddefnyddio gwastraff yn y cartref ynghyd â pha ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. |

| Uned | Disgrifiad |
|---|---|
| Sgiliau byw'n annibynnol – golchi llestri, glanhau, ysgubo a mopio, | Annog pobl i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o lanhau a chynnal a chadw tŷ.<br>Lleoli eitemau a ddefnyddir i'w glanhau ynghyd â thechnegau |
| Defnyddio offer domestig | Sut i ddefnyddio offer trydanol yn y cartref. Rhaid cwblhau'r uned hon wrth symud i dŷ annibynnol am y tro cyntaf. |
| Peryglon yn y cartref | Sut i osgoi damweiniau a thanau yn y cartref . |
| Ymwybyddiaeth gymunedol | Ymestyn eu gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael yn y gymuned a sut i gael gafael arnynt. Gan gynnwys yr hyn sydd ei angen i ddefnyddio'r cyfleusterau. |
| Sgiliau teithio; Trafnidiaeth gyhoeddus | Os yw'r person ifanc agen defnyddio cludiant cyhoeddus yna gallai'r uned hon fod yn ddefnyddiol.<br>Ble i fynd i ddal trafnidiaeth gyhoeddus, gwahanol fathau o gludiant, amserlenni a phrisiau. |
| Byw'n iach; Gweithgareddau hamdden | Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden i hybu eu hiechyd a'u lles. Trafodwch wahanol fathau o chwaraeon sydd ar gael ynghyd â manteision y rhain. |
| Hylendid personol | Gwybodaeth i gynnal safonau hylendid personol da gan gynnwys hylendid deintyddol, glendid a pham mae'n bwysig. |
| Diogelwch personol | Adnabod ffyrdd o gadw eu harian yn ddiogel, pryd i roi manylion personol, beth i'w wneud pan fydd dieithryn yn gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus.<br>Hefyd yn cyffwrdd ar y perygl o yfed alcohol, ysmygu a chymryd cyffuriau. |
| Datblygiad personol | Edrych ar gryfderau a gwendidau'r unigolion a sut i osod nodau iddyn nhw eu hunain.<br>Yn eu helpu i wneud penderfyniadau cadarnhaol o ran bywyd personol, gwaith ac addysg. |
| Hunan reoli | Galluogi i nodi meysydd ar gyfer newid yn eu bywyd . Gosod nodau tymor byr a thymor hir a chynllun i'w gyflawni. Hefyd yn edrych ar ddiet unigolion a phatrymau ymarfer i wella iechyd. |
| Deall effeithiau alcohol | Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau alcohol; unedau, terfynau a argymhellir, effeithiau tymor byr a thymor hir sy'n gysylltiedig ag effaith alcohol ar deulu a ffrindiau. Sut i leihau'r defnydd o alcohol a ble i fynd i gael help. |
| Rheoli amser | Edrych ar amseroedd ar gloc analog a digidol a sut i ddarllen dyddiadau ac amseroedd mewn gwahanol fformatau. Sut i reoli amser a chynllunio ymlaen llaw. |

# Cymhwyster: Gwobr gweithio mewn arlwyo

Mae gan GISDA gaffi hyfforddi sydd hefyd ar agor i'r cyhoedd. Gall pobl ifanc gael profiad gwaith yma ynghyd â chwblhau'r cymhwyster gweithio mewn arlwyo.
Gall cyfranogwyr weithio'n agos gyda'u gweithiwr i sefydlu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer eu hanghenion penodol. Gellir cwblhau'r holl unedau fel unedau ar eu pen eu hunain neu eu hadeiladu i gwblhau dyfarniad mynediad 2 mewn gweithio ym maes arlwyo.

Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol ac a fyddai'n elwa o gyfleoedd go iawn i brofi gwaith yn y maes arlwyo.

| Uned | Disgrifiad |
|---|---|
| Archwilio gweithio mewn maes arlwyo | Uned sylfaenol i gychwyn ar eu taith; yn edrych ar dasgau blaenorol maen nhw wedi'u cwblhau wrth arlwyo a myfyrio ar y tasgau hyn. Mae hyn yn rhoi syniad i ni o'u profiadau blaenorol cyn dechrau ar y cwrs. |
| Cynllun gweithredu personol | Mae'r uned hon yn edrych ar gryfderau a gwendidau unigolion ac yn creu cynllun gweithredu i weithio tuag at. |
| Defnyddio arian | Llyfr gwaith sylfaenol ar sut i gyfrifo gwahanol symiau o arian. Bydd yr uned hon yn mynd law yn llaw â phrofiad ymarferol ar ein till |
| Gweini bwyd | Uned ymarferol sy'n cynnwys gwasanaethu cwsmeriaid yn ein caffi prysur. Bydd dysgwyr yn dysgu pam mae edrychiad yn bwysig, sut i roi sylw i gwsmeriaid a sut i weini a glanhau byrddau. |
| Dilyn Rysait | Uned ymarferol sy'n golygu coginio pryd o fwyd mewn lleoliad proffesiynol. Rhaid i'r dysgwyr ddewis rysáit addas, dewis y cynhwysion a'r offer. Mae'n rhaid iddynt goginio'r pryd o fwyd gan ddilyn y cyfarwyddiadau a glanhau ar eu hôl yn unol â diogelwch bwyd. |
| Gweithio yn y maes arlwyo | Archwilio'r agweddau ar weithio ym maes arlwyo drwy edrych ar offer, rolau, tasgau a diogelwch. |

GISDA
WcVA CGGC
Llywodraeth Cymru Welsh Government
WcVA CGGC Active Inclusion Fund Cronfa Cynhwysiant Gweithredol
Community Foundation Wales Wales Coronavirus Resilience Fund

# Profiadau gwaith a gwirfoddoli

Yma yn Academi Cyfleon rydym yn credu fod derbyn profiadau yn werthfawr ac yn bwysig iawn i ddatblygiad a thaith berson ifanc tuag at annibyniaeth. Rydym yn cynnig profiadau gwaith amrywiol i bobl ifanc o fewn ein gwasanaeth. Gallwn hefyd cynorthwyo pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd allanol wrth greu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol.

| Rôl | Prosiect | Crynodeb y rôl | Addas i.. |
|---|---|---|---|
| Cynorthwyydd caffi | Caffi Gisda | Dysgu sgiliau arlwyo – coginio, barista, till, gofal cwsmer etc. Derbyn hyfforddiant yn y maes. Cefnogaeth i symud ymlaen. | Pobl ifanc sydd eisiau datblygu a symud ymlaen |
| Mentor Caffi | Caffi Gisda | Cynorthwyo gyda chwblhau hyfforddiant gyda phobl ifanc a chefnogi unigolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod eu profiad. | **Unigolyn sydd eisiau profiad yn y maes iechyd a gofal – efallai yng ngholeg neu brifysgol neu wedi cwblhau hyfforddiant a rôl cynorthwyydd caffi** |
| Mentor hosteli | Cefnogi Pobl | Fod yn gyfaill i bobl ifanc newydd sydd yn symud mewn i'r hosteli a'u dangos o gwmpas yr hostel, y dref, adeiladau gisda, cyfleusterau lleol - helpu nhw setlo mewn. | Person ifanc sydd wedi byw yn yr hostel neu wedi symud ymlaen ac a'r gallu i helpu unigolion newydd - efallai eisiau gweithio yn y maes. |
| Prosiectau amrywiol | e.e. garddio, gwaith creadigol, cerddoriaeth | Gwirfoddoli mewn prosietau neu gweithdai amrywiol. | Person ifanc sydd eisiau profiadau a dysgu pethau newydd. |
| Lleoliad gwaith academaidd | Fel arfer yn Cefnogi Pobl | Cysgodi gweithwyr cefnogol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. | Pobl sydd angen lleoliad Gwaith academaidd er mwyn cwblhau cwrs. |
| Gwirfoddolwr galw mewn | #maes a #blaenau - gwasanaeth galw mewn | Helpu gyda #maes neu #blaenau - helpu gydag ymholiadau pobl ifanc, dosbarthu gwybodaeth, talfenni a.y.y.b. | Pobl sydd eisiau profiad pellach yn y maes – efallai angen profiad fel rhan o gwrs. |
| Codi arian | Codi arian | Helpu gyda chodi arian i GISDA - cynnal digwyddiadau, rhedeg marathon, helpu gydag ymgyrchoedd | Unrhyw berson sydd eisiau helpu elusen. |

GISDA
WCVA CGGC
Llywodraeth Cymru Welsh Government
WCVA CGGC Active Inclusion Fund Cronfa Cynhwysiant Gweithredol
Community Foundation Wales – Wales Coronavirus Resilience Fund